**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-416
Ein cyf/Our ref EH/01905/15

William Powell AC

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

30 Ebrill 2015

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Ebrill ynghylch gwasanaethau rheilffordd o'r Gogledd i'r De.

Rwyf wedi nodi sylwadau'r deisebwr ynghylch pwysigrwydd y gwasanaethau hyn, ac rwyf yn bwriadu gwella amseroedd teithio a chysylltiadau trafnidiaeth rhwng y Gogledd a'r De er mwyn hybu twf economaidd.

Ar 6 Mawrth cyhoeddais bod y gwasanaeth rheilffordd cyflym, a elwir hefyd yn Y Gerallt Gymro, ac sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, i barhau. Bydd y contract newydd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau tan ddiwedd y fasnachfraint Cymru a'r Gororau ym mis Hydref 2018.

Mae hyn yn parhau yr ymrwymiad i wella cysylltiadau teithio rhwng y Gogledd a'r De. Rwyf wedi cymeradwyo cyllid o £44 miliwn i Network Rail i sicrhau gwelliannau sylweddol rhwng Wrecsam a Chaer, gan leihau'r daith rhwng Caergybi a Chaerdydd, a chaniatáu tren ychwanegol pob dwy awr rhwng y ddwy orsaf drwy Wrecsam.

Mae'n bosib y bydd gan y deisebwr ddiddordeb hefyd i glywed bod gwasanaeth hedfan Links Air o'r Gogledd i'r De yn cael ei adnewyddu, ble yr wyf wedi dyfarnu contract newydd i Links Air, a fydd yn cynnig dwy daith o Ynys Môn i Gaerdydd ac yn ôl, gan gynnig amseroedd hedfan newydd er mwyn sicrhau diwrnod gweithio hwy yn y ddau le.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*